

ARCHWILIAD	Arolygwyr / Inspectors: HYWEL WYN JONES BA (Hons), BTP, MRTPI RICHARD DUGGAN BSc (Hons), DipTP, MRTPI
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn	Swyddog Rhaglen / Programme Officer: SHARON ELLIS
Anglesey & Gwynedd Joint Local Development Plan	☎01286 679411 ✉ SwyddogRhaglen@gwynedd.gov.uk
EXAMINATION	Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH

Sesiwn Gwrandawriad 1

PARATOAD, GWELEDIGAETH, AMCANION A STRATEGAETH OFODOL Y CYNLLUN

9.30 am, Dydd Mawrth 6 Medi 2016

Agenda Materion a Phynciau

- 1 Cyflwyniad**
- 2 Materion Gweithdrefnol**
- 3 A yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol angenrheidiol?**
 - a. A yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Darparu, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?
 - b. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, Aseiad Amgylcheddol Strategol, ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd/Asesiad Priodol cadarn?
 - c. A lywiwyd y Cynllun gan ystyriaeth gadarn o'r dewisiadau amgen rhesymol?
- 4 A yw Gweledigaeth y Cynllun yn ddigon uchelgeisiol a phenodol i leoliad i ffurfio'r sail ar gyfer cynllunio hyd at 2026?**
- 5 A yw amcanion y Cynllun yn CAMPUS ac yn gallu darparu'r Weledigaeth a nodir?**
- 6 A yw'r strategaeth ofodol yn gyson/cydnaws â:**
 - a. Chynllun Gofodol Cymru?
 - b. cynlluniau a strategaethau rhanbarthol?
 - c. cynlluniau/strategaethau awdurdodau cyfagos?
 - ch. A yw'r Cynllun yn adlewyrchu strategaethau a chynigion darparwyd seilwaith?
- 7 A yw'r dull o ddewis safleoedd yn ddigon clir a thryloyw ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?**

8 A yw'r Strategaeth Ofodol, gan gynnwys yr Hierarchaeth Aneddiadau, yn cynrychioli strategaeth briodol ar gyfer cyflawni twf dros gyfnod y Cynllun?

- a. A yw Strategaeth Ofodol y Cynllun yn cynrychioli agwedd gynaliadwy tuag at gynllunio, gan gynnwys yn nhermau trafniadaeth, dros gyfnod y Cynllun? A fyddai Strategaeth y Cynllun yn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion a nodir?
- b. Sut mae'r Strategaeth Ofodol wedi'i lywio gan ganfyddiadau'r asesiadau o'r farchnad dai leol?
- c. A ellir cyfiawnhau lefel y twf o fewn y Mân Aneddiadau Gwledig ac a oes sail gadarn ar gyfer y rhesymeg dros beidio â chynnwys ffiniau aneddiadau yn achos aneddiadau o'r fath?
- ch. A yw'r Strategaeth Ofodol yn gwneud cysylltiad effeithiol rhwng cyflogaeth a thwf preswyl?
- d. A yw'r Strategaeth yn gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac yn mabwysiadu'r dull dilyniannol tuag at ryddhau tir fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru?
- dd. A yw Strategaeth Ofodol a fframwaith polisi'r Cynllun yn gyson â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â Risg Llifogydd?
- e. A yw Strategaeth Ofodol y Cynllun yn llwyddo o ran trosi polisi cenedlaethol mewn perthynas â'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg i'r lefel leol?

9 A yw strategaeth y Cynllun yn diogelu'n ddigonol buddiannau'r iaith Gymraeg?

10 A yw Strategaeth y Cynllun yn gyflawnadwy?

- a. A ystyriwyd yr holl ofynion seilwaith er mwyn sicrhau datblygiad amserol y safleoedd a neilltuwyd, gan gynnwys yn nhermau capasiti carthffosiaeth?
- b. A ydy'r safleoedd a ddyranwyd wedi'u seilio ar asesiad safle cadarn sydd yn ystyried cyfyngiadau posib?
- c. A yw polisiau PS2 a ISA1 wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn?

11 A yw Strategaeth y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid?

- a. A yw'r Cynllun yn gallu ymateb yn effeithiol i newidiadau ym Mhrosiect Wylfa Newydd?

12 A yw'r Cynllun yn darparu mecanweithiau cadarn ar gyfer Monitro a Gweithredu Strategaeth y Cynllun?

13 Unrhyw faterion eraill.